

# **CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON**

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR 6 FAI 2014

### Presennol

Ei Deilyngdod Y Maer – Cyngorydd W R Owen

### Cynghorwyr

W T Owen, I C Thomas, H Edwards, H W Roberts, A W Bohana, A Kirk, M Thomas  
G Thomas, A Hopcyn, E Lovgreen, E Hughes, T Thomas, K Williams, B Owen,  
C Williams

### **1. Ymddiheuriadau**

Cyng W L Davies

### **2. Cyhoeddiadau'r Maer**

|           |   |
|-----------|---|
| 30.4.2014 | Cyfarfod a mynd a 'International Rotarians' i'r Castell                   |
| 2.5.2014  | Castell Caernarfon gyda Côr o Ffrainc                                     |
| 2.5.2014  | Noson y Maer Dinbych  |
| 3.5.2014  | Dathlu penblwydd yn 100 oed Francis Samuel Snell yn<br>'Seiont Mill Cafe' |

Cydnabod gwaeledd Y Dirprwy Faer Cyng Will Lloyd Davies a danfon  
cerdyn swyddogol ar ran y Cyngor

### **3. Datgan Buddiant Personol**

C Williams – Eitem 14 llythyr diolch CAB

I C Thomas – trwyddedu a chofnodion panel cyllid eitemau 1 a 2

E Lovgreen – cofnodion panel cyllid cais Gefeillio

W T Owen – cynllunio a trwyddedu

A W Bohana – eitem 11 Orchid Fashions

### **4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Dim

## 5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

- i. Cyngor, 22 Ebrill 2014 – cafodd cywirdeb y cofnodion yma ei gwestiynu ond penderfynodd y Cyngor eu bod yn Gywir
- ii. Panel Cyllid a Staff 30 Ebrill 2014  
Cafwyd eglurhad bod y pwyllgor wedi edrych yn fanwl ar y swydd disgrifiad a manyleb person. Nodwyd bod y swydd wedi cael ei hysbysebu yn y Ganolfan Waith a papurau lleol. Fydd rhestr fer yn cael ei greu Mai 27 a cyfweiliadau Mehefin 2il
- iii. Panel Cyllid a Staff 6 Mai 2014

### **Cafwyd adroddiad lafar o'r canlynol**

#### **Ceisiadau Ariannol**

- i) Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru -
- ii) Cyffro Rali Ceir
- iii) Gŵyl Canol Haf
- iv) Clwb Nofio
- v) Amgueddfa RWF
- vi) Cyfeillion Gefeillio Caernarfon a Landerne
- vii) NSPCC (*gyda copi o'i charter ar y bwrdd*)

### **Penderfynwyd y pwyllgor**

- i) £600 (aeth ICT a WRO allan i'r eitem) (cyrhaeddodd TT yn ystod eitem yma)
- ii) £250 (aeth I CT allan)
- iii) £1000
- iv) £200
- v) £500 i dalu am un diwrnod o "re inactment" a chydabyddiaeth yn y digwyddiad . Yn ogystal estyn gwahoddiad i unigolyn ymuno a'r pwyllgor trefniadau Nodi 100 mlynedd
- vi) £650 ar yr amod mai dyma'r unig gais eleni
- vii) £100 (cyrhaeddodd K W yn ystod yr eitem)

### **Pris Brunswick**

Clerc yn egluro ei bod wedi derbyn pris gan Brunswick ond dal yn cael trafferthion cysylltu a perchennog newydd yr hen lys, ac yn bryderus o safbwynt y cais grant. Gofynnwyd oedd y Cyngor yn dymuno dal allan am ryw faint i geisio cysylltu ar perchennog parthed plac Rhyfel Boar ynteu symud ymlaen a'r grant am y railings yn unig

### **Penderfynwyd**

Dal i geisio cysylltu ac os nad oes ateb pendant parthed y plac erbyn diwedd Gorffennaf i geisio am grant am y railings yn unig

**Rhybudd o gynnig o'r Cyngor parthed Rhyddfrait Harry Thomas**

Tynnwyd y rhybudd yn nol ond gofynnwyd i'r pennawd rhyddfreniet ddod ger bron Panel Cyllid yn y dyfodol i sicrhau fframwaith

**Cofiadur Anrhydeddus**

Gan fod Barnwr Merfyn Hughes bellach wedi ymddeol

**Penderfynwyd**

Bod y Cyngor ddim yn medru parhau trafodaeth nes gwybod pwy fydd yn cael ei benodi yn y llys yng Nghaernarfon

**Penderfynwyd y Cyngor**

- i) Derbyn fel rhai cywir
- ii) Derbyn fel rhai cywir ( roedd hawl i weithredu)
- iii) Derbyn fel rhai Cywir a mabwysiadu'r argymhellion

**6. Ceisiadau Cynllunio a Trwyddedu**

I ystyried y ceisiadau cynllunio a thrwyddedu

**Penderfynwyd**

*Cynllunio*

1. C14/0320/14/LL

*Cytuno*

Codi storfa finiau a thorri coeden/

Tre'r Gof, Chapel Street, Caernarfon

*Trwyddedu*

1. Deddf Trwyddedu 2003/Licensing Act 2003/

*CYTUNO*

I amrywio Trwydded Eiddo

*The Promenade Area adjacent to the front of The Anglesey Arms & Slipway, quay and boat*

**7. Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

**Penderfynwyd**

Derbyn a'u talu

**8. Cysoni Cyfrifon**

**Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth

## **9. Maerolaeth**

Darllenodd y clerc lythyr gan Cyng W L Davies oedd ar hyn o bryd yn Ysbyty Glangwili ac yn symud i Ysbyty Treforys yn fuan ar gyfer triniaeth ar y galon. Oherwydd hyn nid oedd yn teimlo ei fod yn medru cyflawni rhinweddau swydd Maer am y flwyddyn i ddod.

Cafwyd sgwrs eang am y peth a trafod yn y gorffennol bod y Maer presennol wedi aros ymlaen am flwyddyn arall . Cwestiynwyd pan na fyddai'r Dirprwy Faer etholedig ddim yn fynd yn Faer ond gan na dydi'r person ddim yn Dirprwy faer tan y Cyfarfod blynyddol yna oedd hynny ddim yn ddilys.

### **Penderfynwyd**

Ethol Cyng W R Owen fel Maer etholedig am y flwyddyn i ddod (2014-2015) ond gan bod oblygiadau ariannol i hyn cynnal cyfarfod brys o banel cyllid nos Fawrth 13 am 6 yr hwyr ( gyda hawl i weithredu ar lwfans Y Maer am y flwyddyn i ddod)

Gadawodd Cyng H Edwards a Cyng W T Owen am 6.55

## **10. Archwiliad**

- i) Ffurflen archwiliad gan gynnwys cyfrifon
- ii) Cyfrifon yr Institiwt
- iii) Llythyrau archwilydd mewnol

### **Penderfynwyd**

- i) Derbyn a diolch i'r clerc am ei gwaith caled unwaith eto
- ii) Derbyn er gwybodaeth fel trustees
- iii) Derbyn a gweithredu ar yr argymhelliad o gael prisiad newydd i'r adeilad

## **11. Rhybudd o Gynnig Cyng. A. Hopcyn**

Pâr: Orchard Clothing

### **Penderfynwyd**

Gan bod y mater yma heb newid ers blwyddyn , ysgrifennu at Prif weithredwr Cyngor Gwynedd i geisio datrys y sefyllfa ac iddo ofyn i'r swyddog / swyddogion priodol ddod i siarad a'r Cyngor

## **12. Cofnodion Gweithgor**

Pâr: Parc y dref

Cwestiynau yn codi am deddfau priodol

### **Penderfynwyd**

Gohirio trafodaeth tan cyfarfod Mis Mehefin ac yn y cyfamser clerc i nodi deddfau priodol a cael adroddiad gan Cyngor Gwynedd am eu gwariant yn ystod y 12 mis diwethaf

## **13. Gemau Cymanwlad ymweliad y baton 29 Mai**

Adroddodd y clerc bod prif digwyddiad y diwrnod yn diweddu yn ardal doc Fictoria rhwng 6.30-7.30 a fydd tocyn i “ardal arbennig” i’r Cynghorwyr ac fydd gwahoddiad gan Y Maer i dderbynfa preifat gyda’r nos am 8 yn Y Galeri

### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth

## **14. Llythyrau diolch**

- i) CAB
- ii) Eisteddfod Genedlaethol
- iii) Urdd

### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth

## **15. Cyngor Gwynedd**

Ymateb Pâr: Arolwg Bysiau Lleol Gwynedd 2014

### **Penderfynwyd**

Diolch am yr eglurhad

## **16. Cwestiynau**

Dim

Gorffennodd y cyfarfod am 7.15

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....

